# Meini Prawf Gwerthuso a Sgorio Taith

| | |
|---|---|
| **Ymgeisydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Cyfeirnod** | |
| **Ariannu** | **Ie / Na** |

| | |
|---|---|
| **Ansawdd y Cyfle Ymchwil** | |
| **Cyfle Rhwydweithio/Datblygu** | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |
| **Cyfanswm** (allan o uchafswm o 18) | |

## Ansawdd yr Ymchwil a'r Arloesi

| | | |
|---|---|---|
| **Eithriadol** | **6** | • Dylid ei ariannu fel mater o'r flaenoriaeth uchaf.<br>• Darperir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig yn llawn ac yn gyson, gan ddangos rhesymeg gref iawn dros gefnogi.<br>• Bydd y cynnig yn bodloni nifer o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS gyda thebygolrwydd uchel iawn o gyflawni'r deilliannau a nodwyd. |
| **Ardderchog** | **5** | • Dylid ei ariannu fel mater o flaenoriaeth ond nid yw'n teilyngu'r sgôr blaenoriaeth uchaf.<br>• Darperir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig yn llawn ac yn gyson, gan ddangos rhesymeg ardderchog dros gefnogi.<br>• Bydd y cynnig yn bodloni nifer o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS gyda thebygolrwydd uchel o gyflawni'r deilliannau a nodwyd. |
| **Da Iawn** | **4** | • Gwaith sy'n dangos safonau rhyngwladol uchel o ysgolheictod, gwreiddioldeb, ansawdd ac arwyddocâd.<br>• Darperir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig yn gyson, gan ddangos rhesymeg dda iawn dros gefnogi.<br>• Bydd y cynnig yn bodloni nifer o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS gyda thebygolrwydd da iawn o gyflawni'r deilliannau a nodwyd. |
| **Boddhaol** | **3** | • Gwaith sy'n dangos safonau cenedlaethol neu ddatblygol o ysgolheictod, gwreiddioldeb, ansawdd ac arwyddocâd.<br>• Amlinellir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig, gan ddangos rhesymeg foddhaol dros gefnogi, ond gellid ei ddatblygu ymhellach fodd bynnag.<br>• Bydd y cynnig yn bodloni o leiaf ddau o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS gyda thebygolrwydd boddhaol o gyflawni'r deilliannau a nodwyd. Bydd rhai gwendidau'n amlwg. |
| **Ddim yn Gystadleuol** | **2** | • Yn anaddas i'w ariannu.<br>• Amlinellir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig, ond ni chynigir rhesymeg argyhoeddiadol dros gefnogi.<br>• Bydd y cynnig yn bodloni o leiaf un o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS ond mae'n dangos rhai gwendidau neu ddiffygion o ran bodloni'r deilliannau a nodwyd. |
| **Anfoddhaol** | **1** | • Yn anaddas i'w ariannu.<br>• Amlinellir tystiolaeth a chyfiawnhad o'r cynnig, ond ni chynigir rhesymeg argyhoeddiadol dros gefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd y cynnig yn bodloni o leiaf un o flaenoriaethau Ymchwil a Datblygu PCYDDS ond mae'n dangos rhai gwendidau a diffygion sylweddol, ac mae'n annhebygol iawn o fodloni'r deilliannau a nodwyd. |

## Cyfle datblygu

| | | |
|---|---|---|
| **Eithriadol** | **6** | • Mae'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio cryf a phriodol iawn i'r ymgeisydd. |
| **Ardderchog** | **5** | • Mae'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio cryf a phriodol i'r ymgeisydd. |
| **Da Iawn** | **4** | • Mae'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio da a phriodol i'r ymgeisydd, er na fydd mor sylweddol â'r rhai fydd yn cael sgôr o 5 a 6. |
| **Boddhaol** | **3** | • Mae'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio clir i'r ymgeisydd, er y gallai hyn fod wedi ei gefnogi'n well drwy ddulliau eraill neu ar ôl i ddatblygiad staff gael ei roi ar waith. |
| **Ddim yn Gystadleuol** | **2** | • Nid yw'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio clir i'r ymgeisydd. |
| **Anfoddhaol** | **1** | • Nid yw'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno datblygiad a/neu gyfle rhwydweithio clir i'r ymgeisydd. |

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| **Eithriadol** | **6** | • Mae darpariaeth y cynnig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn glir ac yn argyhoeddiadol ac yn debygol o sicrhau canlyniadau sylweddol. |
| **Ardderchog** | **5** | • Mae darpariaeth y cynnig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn glir ac yn argyhoeddiadol ac yn debygol o sicrhau canlyniadau da. |
| **Da Iawn** | **4** | • Mae darpariaeth y cynnig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn glir ac yn argyhoeddiadol ac yn debygol o sicrhau rhai canlyniadau. |
| **Boddhaol** | **3** | • Mae trefniadau darparu'r cynnig yn glir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n debygol y bydd angen cymorth pellach i sicrhau canlyniad. |
| **Ddim yn Gystadleuol** | **2** | • Nid yw trefniadau darparu'r cynnig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi'u diffinio'n glir neu maent yn annhebygol o arwain at ddeilliannau effeithiol. |
| **Anfoddhaol** | **1** | • Nid yw trefniadau darparu'r cynnig wedi eu diffinio'n glir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru neu maent yn annhebygol o arwain at ddeilliannau effeithiol. |

| | |
|---|---|
| **Sgoriwyd a chymeradwywyd gan:** | |
| **Llofnod:** | |
| **Dyddiad:** | |